| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD** | **19 MEDI 2011** |
| **TEITL** | **UCHAFSWM PRISIAU CERBYDAU HACNI** |
| **PWRPAS** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Noder isod yr uchafswm pris a all gael ei godi gan yrrwyr cerbydau hacni. Nid oes rheidrwydd arnynt i godi hyn ond bydd yr hawl ganddynt i godi hyd at y swm yma.

1.2 Mater i'r diwydiant yw gofyn i'r Cyngor adolygu'r prisiau yma ac yng ngoleuni'r ffaith i ni dderbyn cais oddi wrth Gymdeithas Hacni Meirionnydd, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried codi'r prisiau a ganiateir. Codwyd y prisiau yn Ebrill 2010 a gwneir y cais presennol yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn pris tanwydd.

1.3 Yng ngoluni'r rhesymeg am y codiadau, argymhellir mai dim ond y prisiau sy'n ymwneud yn benodol a chost y daith teithio sy'n cael eu codi.

Nodir isod yr hyn a argymhellir:-

| | 0<br>£ | 1<br>£ |
|---|---|---|
| Milltir gyntaf | 2.80 | 3.00 |
| Pob milltir wedyn | 2.40 | 2.50 |
| Amser Aros | 0.25 | 0.25 |
| Bagiau ychwanegol | 0.25 | 0.25 |
| Person ychwanegol | 0.40 | 0.40 |
| Cludo anifeiliaid | 1.20 | 1.20 |
| Baeddu cerbyd | 45.00 | 45.00 |

1.4 Bydd angen hysbysu'r prisiau yma yn y Wasg, ac oni bai y derbynnir sylwadau yna byddent yn dilyn cyfnod o 1 mis. Pe derbynnir gwrthwynebiadau bydd angen dod a'r mater yn ol i'ch sylw chwi.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor yn mabwysiadu'r prisiau uchod.